WG35-5.42

# MARWNAD,

Er coffadwriaeth am y diweddar BARCH. CHRISTMAS EVANS, Gweinidog y Bedyddwyr yn Nghaernarfon, yr hwn a fu farw Gorph. 21, 1838; yn y flwyddyn o'i oed, 72.

1 MAE trydar, mae galar, ac wylo,
Mae cyffro, mae brwydro, mae brâd,
Sŵn rhyfel, ymrafael, ymrwyfo,
Sŵn clwyfo, sŵn cwyno'n y gâd:
O, forau anaele a niwliog,—
Pob mynydd a glyn yn ei glôg!
Mae Sïon yn wylio'n anelwig,
A'i thelyn ar helyg y'nghrôg!

2 Angylion! lu gwynion gogoniant,
P'le heddyw mae'ch tyniant a'ch taith,
Trwy'r awyr fel myrdd o Eryrod,----
Mae arnaf chwant gwybod eich gwaith?
O gwrando, frawd alltud, cei'n holl-daith,
(Ni dd'wedwn ddim gweniaith wrth gnawd,)
I gyrchu hen filwr o'r fyddin,
I'w wneuthur yn Frenin, hoff frawd.

3 Pa frwydrau, pa 'mladdau 'r ymlwyddodd,
Pwy laddodd, pwy gladdodd trwy 'r cledd?
Pa gampau, pe gaerau agorodd,
Pwy gongc'rodd, pwy faeddodd i fedd?
Taw alltud, â'th helynt, a'th holi,
Mwy gweddus yw tewi i ti;
'Doedd cannoedd na miloedd o ddiawliaid,
O'i flaen ond fel plant yr A. B!

4 Ni roddodd neb gymaint yn rhyddion
O ddynion, oedd dynnion i dân;
Wrth ddangos hen gongcwest Calfaria,
Ddaeth neb o fewn cufydd i'w gân:

X205308669

Mae heddyw gof-feini cyfan-waith,
  Yn dangos gwrol-waith y gwr,—
Rhai 'n wylo yn nghanol yr anial,
  A llawer tu arall i'r dw'r.

5 Lû disglaer, digymma[illegible]ch gemau,
  A'ch gwisgoedd mor olau a'r haul,
Pwy ydyw 'r hen filwr, rhyfelgar,
  Na chlywais i weled ei ail?
'R hen CHRISTMAS, cawr eur-fras Caer'arfon,
  Pwy welwyd mor ffyddlawn mewn ffydd ?
Ca'dd ryddid ar femrwn o gariad,
  Ddydd Gwener ar doriad y dydd.

6 Rhagluniaeth ac arfaeth fu 'n gofyn
  Rhoi terfyn i'w lafur a'i loes ;
Mae heddyw a'i delyn a'i balmwydd,
  A choron 'n lle gw'radwydd y groes,
Heb ofni na gâlar na gelyn,
  Na gwenwyn na cholyn na châs,
Mewn gwledd o drag'wyddol ryglyddiant,
  Yn ngwindŷ gogoniant a grâs.

7 'Chadd angau prin amser i nesu,
  I'w boeni na'i dori o'r tir,
Rho'dd naid o'r areithfa gor aeth-fyd,
  I ganol y bywyd sydd bur ;
Ni chafodd ei gleddyf ddim gloddest,
  Na dim ond rhith gongcwest y gâd ;
Oh syndod, mor esmwyth 'r aeth *Christmas*
  Yn d'wysog deg dinas i'w Dad !

8 Mae clychau gogoniant yn canu,
  Mae 'r teulu yn gwenu i gyd,
*Band* Iesu yn swnio 'r fro oesol,
  Yr *homage* drag'wyddol o hyd ;
Hen filwyr a brodyr fu 'n brwydro,
  Oedd yno yn eilio mewn hwyl,
Pob campwr yn disgwyl o gwmpas
  Am *Christmas* wr addas i'r wyl.

9 Ardderchog gad-fridog o'i frodyr,
Enillodd bob brwydr er brad;
Bedyddiodd 'i athrawiaeth oll drwyddi,
Pob pregeth a gweddi 'n *y gwaed.*
Trwy rinwedd ei 'stôr alegorawl
Gwnai bob-peth yn ddwyfawl â'i ddawn,
Ni fedrodd neb gario'r agoriad,
Na gwybod gwir wreiddiad ei grawn.

10 Wrth danio ei bylor a'i beli.
Hen gawri fu'n gwaeddi mewn gwarth,
Gwylltfilod a llewod bob lliwiau,
A'u ffauau yn cynneu fel carth.
Ail foriai yn ol i Galfaria,
D'ai adre' â chardod o ras,
Gwnai'r llewod yn ŵyn digon llywaeth,
Am brofi mwy fil-waith o'i flas.

11 'R oedd agerdd ei beiriant dychymygol
A'i gallu rhyfeddol mor fawr,
Hi dynodd y Nefoedd a'i nwyfau,
Yn berlau bob lliwiau i'r llawr;
Fe gariodd hen fynydd Calfaria,
I'w ddangos yn gyfa' ar ei gefn—
Pob gwythen o gyfoeth Golgotha,
Fe wyddai ei throfa a'i threfn!

12 O, bydded ei gampau Olympawl
Byth bythawl yn gerfiawl ar graig!
A chadwer hwy ynoʼn gyfannedd,
O gyrhaedd hen ddrygedd y ddraig;
Bydd cof am ei enw mor anw'l,
Mor felus i'r meddwl a mêl;
Bydd *Christmas* yn urddas ei roddion
Gan Sïon, i ddynion a ddêl.

13 Bu'n flaenor dros hanner can mlynedd,
Yn myddin fawr ryfedd yr Oen,
Mor hylaw yn trin y magnelau
Rhwng dreigiau a'u penau mewn poen,

Fel milwr gwnaeth lŵ o ffyddlondeb,
  A safodd yn wyneb ei waith,
Yn wrol, yn ddoniol, yn ddiwyd,
  Nes d'wedwyd, "Diweddwyd dy daith."

14 Ai aur yw'ch telynau, angylion,
  Perorion, lu gwiwlon y gwawl?
Mwy euraidd yw telyn Calfaria,
  Mil harddach, mil mwynach ei mawl
Ei thanau o gariad wneuthurwyd,
  Fe'i nyddwyd, fe'i cochwyd â gwa'd,
Fe fodda swn engyl-delynau,
  Wrth arllwys ei doniau i'w Dad!

15 Wyt ddedwydd, dda hylwydd, ddihalog,
  Ar ddelw odidog dy Dad,
Mewn môr o dangnefedd yn nofio,
  Heb ofni na brwydro na brad.
A weli di'th frodyr hyfrydol,
  Mor ffafriol hawddgarol eu gwedd,
Saith mil o fywiolion yn wylo,
  Wrth gludo'th ran farwol i fedd.

16 Ffarweliaw, ymadaw yr ydwyf,
  Gobeithiwyf pan welwyf dy wedd,
Cawn ganu'r erddygan fuddugol
  Am ddantaith arlwyol y wledd;
Perffeithir gwagnodau eneidiol
  Trwy rinwedd rhyglyddol ei glwy',
I ganu, heb fethu'r un anthem,
  Ni chlywir *Amen* iddi mwy!

A. G. MAELOR.

---

THOMAS, ARGRAFFYDD, LLANELLI.